Gyrfaoedd / Careers

Mae rhaglen Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd ac Addysg Gysylltiedig â Gwaith gynhwysfawr yn cael ei chynnig gan yr ysgol mewn partneriaeth gyda Gyrfa Cymru, Coleg Meirion Dwyfor a chyflogwyr. Ein bwriad yw helpu'r disgyblion i:

- Wella eu hunan-ymwybyddiaeth a datblygiad personol
- Fod yn ymwybodol o'r cyfleoedd gyrfa mewn byd gwaith ac addysg 16+
- Ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer eu gyrfa.

Fel rhan o'r rhaglen cynigir:

- Profiad Gwaith
- Gweithdai e.e. Menter a Sgiliau
- Ffug Gyfweliadau
- Ymweliadau â'r coleg
- Cyfweliadau gyrfaoedd gyda Chynghorydd Gyrfa
- Paratoad ar Opsiynau 14+ a 16+
- Siaradwyr allanol e.e. cyflogwyr a chynrychiolwyr colegau
- Gyrfa Cymru.com

Mae'r ysgol wedi derbyn Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru am ansawdd ei rhaglen Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd. Mae'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd cyfraniad rhieni i'r agwedd yma o ddatblygiad eu plentyn ac mae croeso i rieni gysylltu â'r Cyd-Gysylltydd Gyrfaoedd, Mr. Roger Vaughan os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu ofidion.

The school offers a comprehensive programme for Careers Education and Guidance and Work Related Education in partnership with Careers Wales, Coleg Meirion Dwyfor and employers. Our intention is to help pupils to:

- *Improve their personal development and self-awareness*
- *Be aware of the career opportunities in the world of work and 16+ education*
- *Develop the necessary skills for career development*

The following is offered as part of the programme:

- *Work Experience*
- *Workshops e.g. enterprise and skills*
- *Mock interviews*
- *Visits to colleges*
- *Interviews with a Careers Advisor*
- *Preparation for options 14+ & 16+*
- *Guest speakers e.g. employers and college representatives*
- *Careers Wales.com*

The school has received the Careers Wales Quality Award for Careers Education and Guidance. The school recognises the importance of the contribution of parents to this aspect of their child's development and parents are welcome to contact the school Careers Co-ordinator, Mr. Roger Vaughan if they have any queries or concerns.

Ysgol Eifionydd Porthmadog